

# *Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Pwllheli Harbour Consultative Committee*

*23 Mawrth*

## *Adroddiad yr Uned Morwrol*

### *1 – Ffioedd a Thaliadau*

- 1.1** Mae ffioedd a thaliadau'r harbwr a'r ffioedd a thaliadau cyffredinol eraill ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf 2010/11 wedi eu hanfon er cymeradwyaeth at y Swyddogion Statudol a'r Arweinydd Portffolio. Disgwylir y bydd yr Arweinydd Portffolio wedi cadarnhau'r ffioedd erbyn diwedd mis Mawrth. Er mwyn sicrhau fod ein cleientiaid yn gwybod am y taliadau a godir, mae'r Uned Morwrol eisoes wedi anfon copi o'r ffioedd a'r taliadau drafft at yr holl gleientiaid a'r dyddiad cau i ddychwelyd y ffurflenni Cais am Angorfeydd yn yr Harbwr Allanol oedd 28 Chwefror 2010. Rhoddwyd gwybod i gleientiaid gydag angorfeydd pontŵn fod angen cadarnhau'r hyn y maent ei angen yn fuan ym mis Ionawr.

Hyd yma, cafodd **95** o Ffurflenni Cadarnhau Angorfeydd ar gyfer yr Harbwr Allanol eu dychwelyd yn briodol, ac mae'r nifer cymharol isel hwn yn siomedig. Mae'r Harbwrfeistr wrthi'n dyrannu angorfeydd sydd ar gael i'r rhai hynny sydd ar y rhestr aros. Mae **151** o Gleientiaid Angorfeydd yn yr Harbwr Allanol yn ystod y flwyddyn ariannol hon, gyda chyfanswm o **181** o angorfeydd ar gael. Yn Hafan Pwllheli, cyflwynwyd 410 o gontractau adnewyddu a dychwelodd **351** o gleientiaid eu ffurflenni cadarnhau. Nid yw **30** o gleientiaid wedi adnewyddu eu cytundebau angori. Mae cyfanswm o **45** heb gadarnhau. Mae'r nifer ar y rhestr aros wedi gostwng i **202**.

- 1.2** Mae copi o'r ffioedd a'r taliadau sy'n ymwneud â Phwllheli yn atodol, yn ogystal â'r ffioedd ar gyfer Porthmadog, er mwyn cymharu. Bydd Aelodau yn sylwi mai'r argymhelliad yw peidio â chodi'r tâl i drigolion sy'n byw yng Ngwynedd yn barhaol yn 2010, gydag argymhelliad i godi'r ffioedd a'r taliadau i'r rhai sy'n byw y tu allan i Wynedd **1%** mewn perthynas ag angorfeydd yn yr Harbwr Allanol. Mae'r ffioedd a'r taliadau am wasanaethau yn Hafan Pwllheli wedi cael eu cymeradwyo, ac yr ydym yn falch o ddweud fod yr Arweinydd Portffolio a'r Swyddogion Statudol wedi cefnogi'r argymhelliad na ddylid codi'r ffioedd yn Hafan Pwllheli yn 2010/11. Yn anffodus, bydd ail-gyflwyno TAW o 17.5% yn golygu cynnydd bach mewn costau i'r holl ddefnyddwyr.
- 1.3** Rhagwelir y bydd y cynnydd mewn chwyddiant ar gyfer harbyrau Gwynedd am 2010/11 yn negyddol ar **-1.05%** sydd wedi ei seilio ar y Cynnydd Cyflog nesaf yn 1%. Rhagwelir y bydd y cynnydd mewn chwyddiant ar gyfer Harbwr Pwllheli yn **0.64%**. Mae'r ffigyrau chwyddiant a ragwelir yn golygu rhywfaint o ostyngiad i Darged Incwm Harbyrau yn gyffredinol, sef **-£2,600** yn y flwyddyn ariannol nesaf, ac mae'r cynnydd mewn chwyddiant yn gyfystyr â chyfanswm o **£9,890** i darged incwm Hafan yn 2010/11. Bydd aelodau yn ymwybodol fod incwm Hafan Pwllheli a'r Harbwr Allanol wedi bod yn cyrraedd y targed incwm, a hyd yn oed wedi bod yn rhagori arno o bryd i'w gilydd. Yn anffodus, yn 2009/10, rhagwelir y bydd diffyg bychan yn yr incwm. O ystyried natur anrhagweladwy'r amgylchiadau economaidd byd-eang, bydd angen i'r Uned Morwrol weithredu er mwyn sicrhau fod y gwariant cyffredinol a'r targedau incwm yn cael eu cyflawni heb gyfaddawdu ar y safonau ar gyfer ein cleientiaid.
- 1.4** Unwaith eto, nid yw'r ffioedd a'r taliadau sy'n ymwneud â lansio a chofrestru Cychod Pŵer a Cherbydau Dŵr Personol wedi cynyddu yn y flwyddyn ariannol nesaf. Atodir copi o'r ffioedd

a'r taliadau ar gyfer Lansio Cychod Pŵer a'u Cofrestru ac mae'r ffioedd hyn yn aros yr un fath ag y buont am y deng mlynedd diwethaf gan fod y ffioedd lansio wedi cyrraedd eu uchafswm.

- 1.5 Y cynnydd cyffredinol yn y targed incwm i'r Uned Morwrol am 2009/10 yw **£9,070**, sy'n cymharu gyda tharged uwch o **£51,020** yn 2009/10. Mae hyn yn cynyddu targed incwm cyffredinol yr Uned Morwrol i **£2,130,970** yn 2010/11.

## 2 - Carthu

- 2.1 Yn dilyn cyflwyniad i Aelodau'r pwyllgor ar y Strategaeth Garthu, cychwynnodd y gwaith o wagio'r Lagŵn Ddistyllu ym mis Rhagfyr 2009. Roedd yn hanfodol gwagio'r Lagŵn Ddistyllu er mwyn medru cychwyn carthu basn y marina a sianel ddynesu'r harbwr. Dyfarnwyd y gwaith o wagio'r Lagŵn Ddistyllu a chludo'r deunydd i safle trwyddedig i 'Jones Bros'.
- 2.2 Roedd y deunydd a ddyddodwyd yn y Lagŵn Ddistyllu yn dilyn ymgyrchoedd carthu blaenorol, wedi cael ei storio dros dro ar dir gerllaw'r bwnd. Roedd yn rhaid llwytho ddwywaith gan nad oedd yn bosib i'r lorïau ar gyfer y ffordd gael mynediad at lawr y Lagŵn Ddistyllu. Roedd angen lorïau dadlwytho trwm ar gyfer rhan gyntaf y gwaith o symud y silt, a chludwyd y deunydd ar gerbydau a oedd yn addas ar gyfer y ffordd i Ffridd Rasmus ger Harlech lle defnyddiwyd y deunydd i gapio'r safle tirlawni. Bydd y gost derfynol o wagio'r Lagŵn Ddistyllu tua £175,000.
- 2.3 Dyma'r tro cyntaf y bu angen gwagio'r Lagŵn Ddistyllu, a chafodd tua 16,500 metr ciwbig ei dynnu allan o'r Lagŵn Ddistyllu yn ystod rhan gyntaf yr ymgyrch garthu, ac mae hynny tua 28,000 tonnall o ddeunydd wedi'i gywasgu. Yn anffodus, bu i'r gwaith amharu ar y trigolion cyfagos, ac ysgrifennodd yr Uned Morwrol at drigolion lleol i roi gwybod iddynt am y gwaith, gan ymddiheuro am unrhyw anghyfleustra. Mae cyfanswm y deunydd a dynnwyd o'r Lagŵn Ddistyllu yn profi fod ymgyrchoedd carthu blaenorol wedi bod yn llwyddiannus. Mae'r Lagŵn Ddistyllu a'r tir gerllaw'r bwnd yn hanfodol ar gyfer gwaith carthu i'r dyfodol.
- 2.4 Dyfarnwyd y contract i garthu Basn y Marina a sianel ddynesu'r harbwr i 'Keating's Ltd' sydd â phrofiad o waith cynnal a chadw a charthu. Mae 'Mouchelle' yn goruchwyllo'r contract.
- 2.5 Bydd y prif waith carthu yn digwydd mewn dau gyfnod. Bydd y cyfnod cyntaf yn mynd rhagddo gan ddefnyddio 'Damen Suction Dredger' a osodir ar gloddiwr 20 tonnall, sy'n ymestyn ym mhell, ar gwch camlas ar y dŵr. Bydd y 'Versi Dredger' a'r 'Damen Suction Dredger' yn gweithio ar y cyd yn ystod yr ail gyfnod. Bydd y ddau beiriant carthu'n gweithio ar y cyd rhwng 08.00 a 17.00 o ddydd Llun i ddydd Sadwrn. Dim ond un peiriant carthu fydd yn gweithio rhwng 17.00 ac 08.00 er mwyn cadw unrhyw sŵn i lawr a sicrhau nad yw'n amharu ar y trigolion cyfagos. Gobeithir cwblhau'r gwaith yma erbyn 17 Ebrill 2010.
- 2.6 Mae'r Uned Morwrol wedi cyhoeddi Rhybudd i Forwyr yn rhoi gwybod i'r rheiny sy'n mordwyo'r harbwr y bydd cyfyngiadau, ac y bydd tebygolrwydd cryf na fydd y llongau sydd wedi'u hangori ym masn y marina yn medru mordwyo tua'r môr, gan y bydd lein beipiau yn mynd o'r llong garthu i'r Lagŵn Ddistyllu, gan atal mynediad i mewn i'r angorfa ac allan. Atodir copi o'r Rhybudd i Forwyr sydd eisoes mewn grym.

## 3 - Cyllidebau

- 3.1 Atodir copi o ddadansoddiad ariannol incwm a gwariant yn Hafan Pwllheli a'r Harbwr Allanol, ar 31 Rhagfyr 2009. Bydd aelodau'n sylwi bod y targed incwm sy'n ymwneud â harbwr Pwllheli yn **£1192760** ar gyfer 2009/10, a bod cyfanswm yr incwm a grëwyd hyd ddiwedd Rhagfyr 2009 yn **£108,062**, gan adael diffyg o **£11,698**.

Mae hyn o'i gymharu â diffyg o **£13,737** am yr un cyfnod y llynedd. Ni ragwelir y gellir creu incwm sylweddol yn ystod mis Mawrth, felly, ni ragwelir y gellir cyflawni'r taged incwm y flwyddyn ariannol hon.

- 3.2 Bydd aelodau'n sylwi bod y targed incwm sy'n ymwneud â Hafan Pwllheli yn **£1,552,740** ar gyfer **2009/10**, ac mai'r cyfanswm incwm a grëwyd hyd ddiwedd Rhagfyr 2009 yw **£1,503,451**, o'i gymharu ag incwm o **£1,480.616** am yr un cyfnod y llynedd. Y diffyg incwm presennol yn Hafan Pwllheli ar 31 Rhagfyr 2009 oedd **£49,289**. Rhagwelir y bydd y targed incwm yn Hafan Pwllheli wedi cyrraedd y targed angenrheidiol erbyn diwedd mis Mawrth.
- 3.3 Fel y bydd aelodau'n sylwi, mae'r gwariant hyd yma wedi bod y tu hwnt i'r gyllideb dan nifer o benawdau yn yr Harbwr Allanol ac yn Hafan Pwllheli ac mae hyn yn peri peth pryder gan y rhagwelir gwariant ychwanegol yn ystod mis Mawrth. Yn yr un modd â'r blynyddoedd a fu, bydd yr incwm ychwanegol a grëir yn cael ei ddyrannu i benawdau penodol er mwyn sicrhau fod y gyllideb gyffredinol yn cyrraedd y targed angenrheidiol. Bydd aelodau'n nodi cynnydd sylweddol mewn costau trydan o gymharu â chostau trydan yn 2007/08. Bydd y gwariant cyffredinol dan y pennawd cyllid trydan yn gostwng oherwydd bod y targed incwm ar y gyllideb incwm trydan wedi'i gyrraedd.
- 2.3 O ystyried yr hinsawdd economaidd sydd ohoni, bydd 2010/11 yn flwyddyn heriol i'r Uned Morwrol, yn enwedig i harbyrau Gwynedd. Pwysleisir y bydd angen goresgyn unrhyw orwariant ac unrhyw ddiffyg incwm, yn enwedig o ystyried yr hinsawdd economaidd y mae'r Awdurdod yn ei hwynebu.

### **Mordwyo / Angorfeydd**

- 3.3 Mae'r holl gymhorthion mordwyo sy'n arwain i Harbwr Pwllheli wedi aros yn eu lle yn ystod misoedd y gaeaf. Mae'r tywydd anghyffredin o sefydlog wedi golygu bod yr Uned Morwrol wedi cyflawni nifer o dasgau ychwanegol.

Mae'r rhan fwyaf o'r cymhorthion mordwyo yn rhai sefydlog, mae dau'n parhau ar y dŵr ac mae Bwi'r Sianel Fordwyo a Bwi'r Port yn marcio'r sianel ddynesu. Mae bwi Starbord dros dro wedi'i leoli ger swyddfa'r Harbwrfeistr er mwyn cyfeirio traffig i'r de o'r rhwystr sy'n ymestyn allan i'r sianel.

Oherwydd bod y gwaith carthu'n mynd rhagddo rŵan, bydd y cymorth mordwyo starbord a nodwyd uchod yn cael ei ail-leoli fwy tua'r dwyrain cyn gynted ag y bydd y gwaith carthu wedi'i gwblhau.

- 3.4 Mae'r llusernau sefydlog yn parhau i fod angen gwaith cynnal a chadw, ac mae'n siomedig adrodd nad yw'r gwaith wedi'i gwblhau eto. Bydd angen i'r Harbwrfeistr newydd sicrhau y bydd y gwaith hwn yn cael ei gwblhau yn y dyfodol agos iawn.
- 3.5 Mae tri bwi marcio port yn parhau yn eu lle ym mynedfa'r harbwr er mwyn cyfeirio traffig i ffwrdd o'r dŵr bas. Fel y gŵyr aelodau, bydd y bwiau marcio yn parhau yn eu lle o bosib tan 2012, pan ragwelir y bydd angen carthu mynedfa'r harbwr. Mae'r Uned Morwrol wedi gwella'r marcwyr mordwyo ac mae tri bwi port sylfaenol wedi'u gosod ym mynedfa'r harbwr, yn lle'r bwiau dros dro blaenorol.
- 3.6 Mae'n ofynnol bod yr holl Fwiau Marcio Parth y Traeth a'r Bwiau Marcio Cyfyngiadau Cyflymder tymhorol yn eu lle yn agos at fynedfa'r harbwr mewnol cyn 1 Mai 2010.
- 3.7 Mae holl angorfeydd yr harbwr wedi cael eu harchwilio a'u cynnal a'u cadw er mwyn sicrhau y gall y llongau fod yn ddiogel yn yr harbwr yn ystod y tymor hwylio nesaf. Bydd adroddiad

cynhwysfawr ynghylch cyflwr yr angorfeydd ac ar y gwaith a wnaed ar bob angorfa yn cael ei ddsbarthu yn y cyfarfod gan y Swyddog Morwrol.

G W Marine oedd yn gyfrifol am y gwaith archwilio a chynnal a chadw a bydd cyfanswm y gost o archwilio a chynnal a chadw angorfeydd ym Mhwlheli yn **£1,850**.

#### **4 - Digwyddiadau**

- 4.1** Rydym yn falch o adrodd bod yr ŵyl boblogaidd 'Wakestock' yn dychwelyd i Fasn Gogleddol harbwr Pwllheli o 1 Gorffennaf hyd 4 Gorffennaf 2010. Fel yn y blynyddoedd blaenorol, mae'r trefnwyr wedi gofyn am ganiatâd i gynnal yr ŵyl ar y dydd Gwener, dydd Sadwrn a dydd Sul. Nid yw'r Uned Morwrol wedi derbyn unrhyw wrthwynebiad i drefnwyr y digwyddiad ymestyn y cyfnod.
- 4.2** Rydym yn falch o adrodd ein bod wedi cael gwybod y cynhelir Gŵyl Fwyd Llŷn ym Mhenrhyn Glandon ar 29 a 30 Mai 2010. Cynhelir yr Honda Rib Youth Challenge blynyddol yn yr harbwr mewnol ar 31 Gorffennaf, ac mae'n fwriad i'r digwyddiad mawr ei fri, National Powerboat Event, ddychwelyd i Bwllheli yn ystod yr haf hefyd.
- 4.3** Mae Hafan Pwllheli, unwaith eto, wedi ennill y 'Five Anchors Award' a'r Wobr Baner Las Rhyngwladol. Mae'r gwobrau hyn yn profi fod cyfleuster o'r safon orau posib ar gael i forwyr yma yng Ngwynedd. Mae traeth Marian y De hefyd wedi ennill Gwobr Baner Las Rhyngwladol yn 2010, ac mae traeth Glan Don wedi ennill Gwobr Arfordir Glas.

#### **5 - Staff**

- 5.1** Mae nifer o swyddogion yr Uned Morwrol a Pharciau Gwledig yn parhau i fod ar secondiad mewn meysydd eraill o'r gwasanaeth. Yn ddiweddar, cyflwynodd yr Harbwrfeistr sydd ar secondiad yn Harbwr Pwllheli, ei lythyr ymddiswyddo, a bydd yn ymddeol o'r swydd ar 31 Mawrth 2010.
- 5.2** Bydd ei ymddeoliad yn golled i'r gwasanaeth a byddwn yn colli ei brofiad a'i wybodaeth helaeth. Rydym yn hyderus y bydd Aelodau'r Pwyllgor yn gwerthfawrogi'r cyfraniad a wnaed gan yr Harbwrfeistr sy'n ymddeol, sydd wedi gweithio fel Harbwrfeistr Porthmadog a Phwllheli.
- 5.2** Hysbysebwyd swydd Harbwrfeistr Porthmadog yn fewnol yng Nghyngor Gwynedd a lluniwyd rhestr fer o'r ymgeiswyr. Cynhaliwyd cyfweiliadau ar gyfer y swydd ar 11 Chwefror a phenodwyd Harbwrfeistr newydd a bydd yn cychwyn ar ei ddyletswyddau ar 1 Ebrill 2010. Rydym yn hyderus y bydd Aelodau Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Pwllheli yn gwerthfawrogi cyfraniad yr Harbwrfeistr dros dro sydd wedi bod ar secondiad ym Mhwlheli am y tair blynedd ddiwethaf.
- 5.3** Bydd y Swyddog sydd wedi derbyn secondiad i swydd Harbwrfeistr Pwllheli yn cychwyn ei ddyletswyddau ar 1 Ebrill.

#### **6 - Pecyn Cychod Ymwelwyr**

- 6.1** Yn ddiweddar, mae'r Uned Morwrol wedi bod yn ystyried gwella'r wybodaeth a gyflwynir i'r rheiny sy'n ymweld â Phwllheli ar y môr. Trafodwyd y prosiect gydag aelodau Pwyllgorau Ymgynghorol Harbwr Aberdyfi, Abermaw a Phorthmadog. Rhoddwyd cynnig o flaen yr Aelodau mewn cyfarfodydd blaenorol, sef cyflwyno 'Pecyn Croeso' i gychod sy'n ymweld â'r harbwr, gan gynnwys gwybodaeth am gyfleusterau'r harbwr, mwynderau lleol, llanw, bwytai, gwasanaethau brys ac ati.

- 6.2 Disgwylir y bydd yr holl gychod sy'n ymweld â harbwr Pwllheli, gan angori un ai yn y Marina neu'r Harbwr Allanol, o'r 1 Ebrill 2010 ymlaen yn derbyn 'Pecyn Croeso'. Mae'r cynllun hwn i'w gyflwyno ym mhob harbwr ac mae pob Harbwrfeistr wedi cael cyfarwyddyd i sicrhau bod Pecyn Croeso cynhwysfawr o safon ar gael. Bydd yr Harbwrfeistr a'r Swyddog Morwrol - Harbyrau yn cyflwyno Pecyn Croeso Pwllheli i'r aelodau yn y cyfarfod.

## 7 - **Rhestr Aros Angorfa Pontŵn Hafan**

- 7.1 Mae nifer y cleientiaid posib ar restr aros Hafan wedi gostwng yn sylweddol yn ystod rhan gyntaf 2010. Fel yr adroddwyd yn flaenorol, roedd nifer y bobl a gofrestrodd eu diddordeb am angorfa gan y Cyngor wedi disgyn i 202. Mae hyn o'i gymharu â 339 a oedd wedi cofrestru am yr un cyfnod yn 2009.
- 7.2 Mae aelodau'r Pwyllgor wedi gofyn i'r Uned Morwrol ystyried cynyddu'r gost o gofrestru ar y Rhestr Aros o £50.00 fel y mae ar hyn o bryd, i swm uwch o £100.00. Mae barn aelodau wedi cael ei ystyried, ond bydd rhaid ystyried y mater ymhellach cyn codi'r ffi cofrestru, yn enwedig o gofio'r nifer sylweddol sydd wedi tynnu eu henwau oddi ar y rhestr.

Gofynnodd Aelodau (PMBHA) am fanylion pellach, sef:

*O'r nifer o bobl ar y rhestr aros yn ystod y deuddeg mis diwethaf, faint ohonynt sydd wedi gwrthod y cynnig am angorfa:-*

- 6m – 1 cais – angorfa heb ei chynnig eto
- 8m – dim ceisiadau yn ystod y flwyddyn ddiwethaf
- 10m – 19 cais 11 wedi derbyn ac 8 wedi gwrthod
- 12m – 3 chais – pob un wedi derbyn
- 13.5m – 2 gais – 1 wedi derbyn 1 wedi gwrthod
- 15m – 3 chais – 2 wedi gwrthod – aros am gadarnhad gan un cleient posib

*O'r nifer o bobl ar y rhestr aros yn ystod y deuddeg mis diwethaf, faint ohonynt sydd heb gael cynnig angorfa barhaol:-*

- Mae pawb ar y rhestr aros wedi cael cynnig angorfa.

*Beth yw'r cyfnod aros a roddir i ymholwyr lleol ac i ymholwyr nad ydynt yn lleol pan fyddant yn holi am angorfa:-*

- Ar gyfer pob ymholiad ar gychwyn 2010, byddai angorfa yn debyg o fod ar gael.